# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **24 Mai 2017.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Jennifer Raynor | Adran Etholiadol: | Dynfant |
|---|---|---|---|

| **Swydd Cyflog Uwch:** | Aelod y Cabinet dros Addysg |
|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Cynheliais gymorthfeydd i holl breswylwyr Dynfant ar ddydd Sadwrn cyntaf pob mis o 10am tan 11am yng Nghanolfan Gymdeithasol Dynfant. Roeddwn ac rwy'n parhau i fod ar gael trwy e-bost – cllr.jennifer.raynor@swansea.gov.uk neu drwy ffonio 01792 207807 ac yn Neuadd y Ddinas drwy ffonio 637429.

Mae materion a godwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys parcio'n beryglus ar balmentydd, rhwystro'r ffordd ar gyfer cerddwyr. Parcio anystyriol ger Ysgol Gynradd Dynfant, gan rwystro preswylwyr lleol sydd am fynd i'r gwaith. Rhieni mewn ceir nad ydynt yn chwilio am blant eraill sy'n cerdded wrth geisio parcio a gadael. Mae'r broblem hon yn un difrifol ac mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi ymweld â'r ysgol.

Gofynnodd preswylwyr i fi wella diogelwch traffig ar Bont Dynfant trwy osod llinell wen yng nghanol y bont. Paentiwyd y llinell wen ar y ffordd.

Defnyddiais fy Lwfans Amgylcheddol Cynghorwyr i blannu mwy o flodau gwyllt yn ardal Dynfant. Defnyddiais beth o'r lwfans i gyfrannu at gais am grant ar gyfer cyfarpar chwarae a wnaed gan Gyfeillion Parc Dynfant. Yn Lle Chwarae'r Dôl, trefnais i'r arwyneb gael ei wella a thalais am y gwaith i osod gwifren sip iau. Rwyf wedi gwneud cyfraniadau at ysgolion cynradd Dynfant a Phen y Fro. Rwyf wedi gwneud cyfraniadau at Ganolfan Gymdeithasol Dynfant a'r Clwb Garddio er mwyn iddynt gynnal gweithgareddau cymunedol.

Ar gais preswylwyr a oedd yn pryderu am ddiogelwch ffyrdd, defnyddiais fy lwfans i osod goleuadau sy'n fflachio'n ambr i rybuddio am ysgol ar Heol Goetre Fawr ger y gyffordd â Heol Dynfant. Talais am y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig yn Y Berllan.

Rwy'n aelod o Grŵp Cyfeillion Parc Dynfant. Rwy'n mynd i'w cyfarfodydd yn gyson ac yn siarad ag Aelodau perthnasol y Cabinet am faterion a godwyd gan y grŵp cyfeillion.

Es i i gyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) ac roeddwn (ac rwyf o hyd) mewn cysylltiad rheolaidd â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs).

Roeddwn (ac rwy'n parhau i fod) yn llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Pen-y-Fro ac Ysgol Gyfun yr Olchfa.

## Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr isadran etholiadol.

Dangosir isod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgorau:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Cabinet | 13 | / | 15 | 86.67 | % |
| Y Cyngor | 13 | / | 16 | 81.25 | % |
| Panel Ariannu Allanol | 6 | / | 8 | 75.00 | % |
| **Cyffredinol** | **32** | **/** | **39** | 82.05 | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Is-gadeirydd y Fforwm Magu Plant Corfforaethol.
Is-gadeirydd Grŵp Strategaeth Addysg sy'n cynnwys cynrychiolaeth gan benaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd, llywodraethwyr ysgolion ac uwch-swyddogion addysg, ac sy'n ceisio cynnal safonau uchel o addysg yn ystod y cyfnod hwn o galedi. Arweinydd y Cyngor yw'r cadeirydd.

## Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig

Cynrychiolais Arweinydd y Cyngor ar Gyd-bwyllgor “Ein Rhanbarth ar Waith” (ERW), y corff rhanbarthol sy'n gyfrifol am wella cyflwyniad addysg yn rhanbarth y de-orllewin.

Mae'r agenda addysg yn cael sylw. Cafodd ysgolion uwchradd Abertaweeu canlyniadau presenoldeb gorau erioed. Mae cyrhaeddiad ysgolion yn parhau i wella.

## Adran 5: Dysgu a datblygu

Es i i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

19.05.17 - Gwneud Penderfyniadau Da, Tuedd, Penderfynu Ymlaen Llaw a Rheolau Cyfiawnder Naturiol
18.05.17 - Cyllid Llywodraeth Leol
11.05.2017 - Côd Ymddygiad

## Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill

-

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Uwch: £32,000 – Aelod y Cabinet dros Addysg

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 31.10.2017 |